# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2017

Amser: 08.30 - 08.45

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Siân Wilkins (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 15 Mawrth 2017 –**

- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Diogelu Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (Dai Lloyd) (60 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~ – *symudwyd i 22 Mawrth*

**Dydd Mercher 22 Mawrth 2017 –**

- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~ – *symudwyd i 29 Mawrth*
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

**Dydd Mercher 29 Mawrth 2017 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol (60 munud)

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ddeiseb ar Ganser yr Ofari (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - Ymateb gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad, mewn egwyddor, ar 14 Chwefror i gyfeirio Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1, a chytunwyd mai'r dyddiad terfyn i'r Pwyllgor adrodd ar y Bil yng Nghyfnod 1 fyddai 7 Gorffennaf 2017, a'r dyddiad terfyn ar gyfer cwblhau trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 fyddai 13 Hydref 2017.

### 4.2 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer Bil yr Economi Ddigidol

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â Bil yr Economi Ddigidol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn dydd Llun 13 Mawrth er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 14 Mawrth 2017.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Papur gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Cais am gyfarfod ychwanegol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar gais gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gofyn am gyfarfod ychwanegol fore Mawrth 28 Mawrth 2017 er mwyn i'r Pwyllgor allu craffu ar gyfrifon blynyddol 2015-16 Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Unrhyw fater arall

Gwnaeth y Llywydd atgoffa'r Rheolwyr Busnes fod disgwyl i Aelodau sydd wedi gwneud cais i siarad ar eitemau busnes gyrraedd cyn dechrau'r eitem honno os ydynt yn dymuno cael eu galw. Cyfrifoldeb yr Aelodau yw sicrhau eu bod yn ymwybodol os yw busnes yn rhedeg o flaen amser.